



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021

Trefniadau ar gyfer rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau

Dyddiad cyhoeddi: 17 Rhagfyr 2020
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 26 Mawrth 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021.

Mae Adran 2 o **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant sy'n gosod y trefniadau y maent wedi eu gwneud at ddiben sicrhau y rhoddir sylw dyledus i ran 1 o'r Confensiwn ac erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog (ac eithrio erthygl 6(2) ac erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Sut i ymateb

Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Cewch ddewis sut i ymateb. Gallwch: gwblhau'r ffurflen ar-lein; lawrlwytho'r ffurflen a'i chwblhau â llaw, ac yna ei hanfon yn y post i'r cyfeiriad a ddarperir; neu ei hanfon drwy e-bost.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Y Gangen Plant
Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
Yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: childrensrights@gov.wales

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#)

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
Cynllun Hawliau Plant 2012
Cynllun Hawliau Plant 2014

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair


Yng Nghymru mae hawliau plant yn gwbl sylfaenol – nid rhywbeth ychwanegol dewisol mohonynt. Rydym wedi arwain y ffordd ym maes hawliau plant drwy eu hymgorffori'n gyfreithiol drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011¹. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud trefniadau deddfwriaethol mor arwyddocaol er mwyn sicrhau lle canolog i hawliau plant.

Rwyf am weld Cymru sy'n cydnabod bod plant a phobl ifanc yn ddinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud yn eu cymunedau a'u gwlad.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant hwn sydd wedi'i ddiweddarau yn seiliedig ar *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru* a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r strwythur newydd hwn yn darparu fframwaith strategol i gynnwys hawliau plant ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau.

Croesawaf yr ymchwiliad eang a manwl i Hawliau Plant gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy'n falch o fod wedi gallu cynnwys nifer o argymhellion y pwyllgor yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn yn ystod y cyfnod ymgynghori.



Julie Morgan AS

Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



¹ [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)

Rhagair

Trosolwg

Gwneir y Cynllun Hawliau Plant o dan Adran 2 o 'Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' 2011. Mae'n gosod y trefniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud, neu y maent yn bwriadu eu gwneud, at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a osodwyd arnynt o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ('y Mesur') i roi sylw dyledus i ofynion;:

- Rhan I o'r Confensiwn,
- erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac
- erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Strwythur y Cynllun Hawliau Plant

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ganllaw o'r enw *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru*². Mae'r Cynllun Hawliau Plant hwn yn seiliedig ar bum egwyddor y Ffordd Gywir sy'n darparu fframwaith strategol i gynnwys hawliau plant ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau, llunio polisiau ac ymarfer. Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- **Gwreiddio hawliau plant**– dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau
- **Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gall fod ac nad yw'n dioddef camwahaniaethu
- **Grymuso plant** – gwella gallu plant fel unigolion fel eu bod yn medru manteisio'n well ar hawliau
- **Cyfranogiad** – gwrandao ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn
- **Atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a champau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Cefndir yr ymgynghoriad hwn

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn pennu cyfeiriad hirdymor. Mae'n cynnwys yr hyn a ddymunir ar gyfer pob un o'r egwyddorion a nodir uchod. Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn cynnwys:

- strwythurau sydd eisoes ar waith;

² [Y Ffordd Gywir – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru](#), Comisiynydd Plant Cymru, Mawrth 2017

- trefniadau rydym yn cynnig eu datblygu er mwyn sicrhau hynt yr agenda Hawliau Plant o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru a phobl briodol eraill wrth lunio Cynllun newydd neu newid yr un presennol. Gwnaed hyn.

Rydym wedi cynnal trafodaethau parhaus â'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant, grŵp rhanddeiliaid arbenigol, ar sut i ddatblygu'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn. Rydym hefyd wedi myfyrio ar yr adborth o'r adroddiad cydymffurfio³ a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018.

Wrth adolygu'r Cynllun, mae'n rhaid i Weinidogion ystyried unrhyw adroddiadau, awgrymiadau, argymhellion cyffredinol eraill neu unrhyw ddogfen arall a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('Y Pwyllgor'). Cyhoeddwyd casgliadau terfynol⁴ diwethaf y Pwyllgor ynghylch y DU yn 2016 ac fe'u hystyriwyd wrth lunio'r Cynllun diwygiedig hwn. Cyhoeddir y set nesaf o gasgliadau terfynol gan y Pwyllgor ar ôl i'r DU gyflwyno ei hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn 2021 ar hynt y gwaith o weithredu'r Confensiwn.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio neu ail-lunio'r Cynllun sydd ar waith ar yr adeg honno yn sgil unrhyw awgrym neu argymhelliad cyffredinol a wneir gan y Pwyllgor.

Mae'r Gweinidogion hefyd wedi ystyried yr adroddiadau canlynol wrth ddatblygu'r cynllun hwn:

- Gwaith craffu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Mesur a'i adroddiad terfynol *Hawliau Plant yng Nghymru*⁵, Awst 2020;
- Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *The impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales*⁶, Awst 2018.
- *Evaluation of the Welsh Government's Child Rights Impact Assessment procedure under the Children's Rights Scheme pursuant to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011*⁷, 2015.

³ [Adroddiad ar gydymffurfiaeth](#) â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Mehefin 2015 – Mehefin 2015 – Ionawr 2018.

⁴ Pwyllgor y Cenedloedd Unedig ar ôl i Adroddiad y Wladwriaeth sy'n Barti gael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU: '[Concluding Observations](#)' about the UK – 12 Gorffennaf 2016

⁵ Senedd Cymru – Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – [Hawliau Plant yng Nghymru](#) – 11 Awst 2020

⁶ [The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales](#), Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Awst 2018

⁷ [Evaluation of the WG's CRIA procedure under the CRS pursuant to the Rights of Children and Young Persons Wales Measure \(2011\)](#) – Dr S Hoffman a C Morse – Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc (Mehefin 2015)

Y camau nesaf yn dilyn y cyfnod ymgynghori

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr adborth ac yn diweddarau'r Cynllun Hawliau Plant. Byddwn wedyn yn gweithredu'r holl drefniadau a restrir yn y ddogfen hon ac yn cyhoeddi'r Cynllun Hawliau Plant yn ystod hydref 2021.

Cynllun Hawliau Plant 2021

1 Cyflwyniad

Pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y cyfeirir ato fel 'y Mesur' yng ngweddill y ddogfen hon), gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2011. Mae adran 1 o'r Mesur yn ymgorffori ystyried;

- (a) Rhan I o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,
- (b) erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac
- (c) erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant,

yng nghyfraith Cymru, drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion yr uchod wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Gwneir y Cynllun Hawliau Plant o dan Adran 2 o'r Mesur ac mae'n gosod y trefniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud, neu y mae'n bwriadu eu gwneud, at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1.

2 Cefndir

2.1 Cymru a'r Confensiwn

Mae'r Confensiwn yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

Ar 16 Tachwedd 1991, cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y Confensiwn a daeth i rym mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992. Mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cadarnhau dau 'Brotocol Dewisol'⁸ i'r Confensiwn.

Mae'n ofynnol i wladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn, o dan erthygl 44, hysbysu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Pwyllgor) am y mesurau y maent wedi'u mabwysiadu er mwyn gweithredu'r hawliau a gydnabyddir o fewn y Confensiwn a'r hynt a wnaed i fwynhau'r hawliau hynny.

Yn 2002 datblygodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc a grynodd y Confensiwn fel sail ar gyfer cynllunio, penderfynu ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol ac yn lleol.

⁸ y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog; y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

Ym mis Ionawr 2004 mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Confensiwn yn sail i'w bolisiâu ynghylch plant a phobl ifanc. At ddibenion y Cynllun hwn, mae 'plant' a 'phobl ifanc' yn cyfeirio at y rhai hyd at 18 oed, er mwyn cyd-fynd â'r Confensiwn ei hun.

Yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pan wahanodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru, trosglwyddwyd yr ymrwymiad i'r Confensiwn i Weinidogion Cymru.

2.2 Beth yw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru?

Noda adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, oddi ar ddechrau 1 Mai 2014:

Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion –

(a) Rhan I o'r Confensiwn; (b) Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6 (2); ac (c) Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Ystyr swyddogaethau Gweinidogion yw:

Popeth y gall Gweinidogion Cymru ei wneud am fod deddfwriaeth wedi rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei wneud; Popeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud am fod deddfwriaeth wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w wneud.

Golyga hyn fod y ddyletswydd ar Weinidogion yn gymwys pryd bynnag y maent yn defnyddio unrhyw rai o'u pwerau i wneud penderfyniad, neu pryd bynnag y mae dyletswydd arnynt i wneud penderfyniad. Caiff holl gamau gweithredu Llywodraeth Cymru eu cyflawni drwy ddefnyddio pwerau neu ddyletswyddau'r Gweinidogion.

Cyfeirir at y ddyletswydd a osodir gan adran 1 o'r Mesur uchod fel y 'ddyletswydd sylw dyledus'.

Mae'r Mesur yn gosod y ddyletswydd sylw dyledus ar Weinidogion a rhaid iddynt fod yn llwyr ymwybodol o'r ddyletswydd pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys i Weinidogion hyd yn oed pan fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion. Mae'r ddyletswydd hefyd yn gymwys i Ddirprwy Weinidogion.

Mae'r term sylw dyledus yn gofyn am roi ystyriaeth gytbwys i faterion. Golyga hyn fod yn rhaid i Weinidogion, wrth arfer eu swyddogaethau, ystyried sut mae'r hyn y maent yn ei wneud yn ymwneud â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn. Wrth nodi unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, mae'n rhaid i Weinidogion ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau i i osgoi neu leihau'r effaith hon. Mae'n rhaid i Weinidogion hefyd ystyried sut y gallant wella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at eu hawliau drwy ddefnyddio eu swyddogaethau. Ar ôl ystyried hyn, mae angen rhoi ystyriaeth gytbwys (sylw dyledus) i'r canlyniad yn erbyn y ffactorau eraill y mae'n rhaid i'r Gweinidogion eu hystyried wrth wneud y penderfyniad dan sylw.

3 Ymgorffori hawliau plant o fewn Llywodraeth Cymru

Canlyniadau dymunol:

- Gwaith llunio polisi o ansawdd uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc;
- Galluogi pobl ifanc i wireddu eu hawliau drwy well prosesau llunio a gweithredu polisïau.

Mae hawliau plant wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau yng Nghymru. Hawliau plant sy'n sail i'n huchelgais bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gwireddu ei botensial.

Mae cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wedi'i hymgorffori'n gadarn ochr yn ochr â dyletswyddau cyfreithiol eraill ar Weinidogion megis Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁹, deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a'r ddyletswydd i fod yn gydnaws â'r hawliau a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Hefyd, ceir cytuniadau sydd wedi cael eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU ac sydd, felly, yn gyfreithiol rwymol (Atodiad A).

Cynigiwn y trefniadau canlynol:

3.1 Datblygu llawlyfr i swyddogion Llywodraeth Cymru – i egluro rolau, cyfrifoldebau a chymorth

Bydd y llawlyfr hwn yn helpu holl swyddogion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus ar ran yr holl Weinidogion. Bydd yn:

- darparu gwybodaeth gefndir am y Confensiwn a dolenni i'r adnoddau sydd ar gael
- amlinellu rôl ganolog Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wrth gefnogi'r ddyletswydd sylw dyledus, o fewn y broses Asesu Effaith Integredig;
- amlinellu pwysigrwydd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i wrando ar eu barn
- darparu dolenni i gymorth pellach (gan gynnwys amlinelliad o rôl cangen Plant Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i helpu swyddogion i gyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus);
- amlinellu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn.

⁹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made/welsh>

Bydd y llawlyfr yn amlinellu cyfrifoldebau'r rolau canlynol o fewn Llywodraeth Cymru:

Gweinidogion

Rhaid i Weinidogion roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Rhaid iddynt ystyried hawliau plant mewn modd cytbwys wrth wneud penderfyniadau.

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion yn disgwyl bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw dyledus drwy ystyried y Confensiwn yn briodol cyn iddynt roi gwybodaeth, cyngor, opsiynau ac argymhellion. Disgwylir i swyddogion gyflawni Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, sef y broses a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu Gweinidogion Cymru i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus. Os na chaiff asesiad o'r fath ei gyflawni ar gyfer polisi/penderfyniad penodol, bydd angen i swyddogion gofnodi'r rheswm pam.

Dirprwy Gyfarwyddwyr

Mae gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr rôl benodol wrth gymeradwyo'r asesiad gan mai nhw yw'r swyddogion atebol. Bydd y llawlyfr yn amlinellu'r rôl arwain allweddol sydd gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr o arwain y broses asesu o fewn eu his-adrannau ac i fynd ati mewn modd adeiladol i herio a chynorthwyo swyddogion i gyflawni eu dyletswydd o roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol er mwyn rhoi cyngor cadarn i Weinidogion.

Cyhoeddi a rhannu'r llawlyfr

Er mwyn sicrhau tryloywder, cynigiwn **gyhoeddi'r llawlyfr hwn ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un pryd ag y cyhoeddwn y Cynllun Hawliau Plant terfynol**. Caiff y llawlyfr hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn, os oes angen, er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i brosesau Llywodraeth Cymru. **Caiff templed yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gynnwys yn y llawlyfr hefyd.**

Byddwn yn ail-lansio ymgyrch gyfathrebu ac yn mireinio'r ganolfan wybodaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru.

3.2 Cyflwyno hyfforddiant amlhaenog er mwyn meithrin dealltwriaeth swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Confensiwn a'r ddyletswydd sylw dyledus

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau bod corff mawr o wybodaeth am hawliau plant ar gael i swyddogion er mwyn eu galluogi i roi cyngor cynhwysfawr i Weinidogion Cymru. Bydd y dull amlhaenog hwn yn dwyn ynghyd y gwahanol adnoddau hyfforddi a chyfleoedd rhannu gwybodaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru.

3.3 Hyfforddi Gweinidogion

Datblygir hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Gweinidogion Cymru.

3.4 Arbenigedd allanol i gefnogi hawliau plant

Rydym wedi sefydlu'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant sy'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant ac UNICEF. Mae'r fforwm hwn yn rhoi'r cyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru gael cyngor allanol, arbenigol parhaus ar y ffordd mae polisïau Llywodraeth Cymru yn cefnogi hawliau plant.

4 Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu

Canlyniad a ddymunir:

- Tystiolaeth glir a gyflwynir i Weinidogion sy'n gwella cyfle cyfartal ac yn lleihau nifer yr achosion o wahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd tystiolaeth fel congffaen y broses o wneud penderfyniadau o fewn y llywodraeth.

4.1 Datblygu strategaeth tystiolaeth hawliau plant

Cynigiwn ddatblygu strategaeth tystiolaeth Hawliau Plant i gasglu a lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd y strategaeth yn rhannu'r dystiolaeth ddiweddaraf â gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall materion gwahaniaethu posibl yn well. Bydd y strategaeth yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar lefel genedlaethol, lefel y DU a lefel ryngwladol. Lle nodir bylchau, cynigiwn gomisiynu darnau penodol o ymchwil er mwyn cefnogi'r broses o lunio polisiau

Bydd y strategaeth hon hefyd yn ystyried:

- adborth a mewnwelediad arbenigol rhanddeiliaid yn y sector Plant a Phobl Ifanc;
- tystiolaeth, profiadau ac ymchwil yn uniongyrchol o blant a phobl ifanc.

4.2 Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (fel rhan o'r Aseiad Effaith Integredig)

Mae'r Aseiad Effaith Integredig (AEI) yn ein galluogi i gynnal aseiad cyflawn o effaith cam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) yn rhan allweddol o'r AEI, a dyma sut y disgwyllir i swyddogion helpu Gweinidogion Cymru i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus. Mae'r AEHP yn darparu fframwaith i swyddogion ystyried a chofnodi a yw'r cynigion polisi yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc. Mae'n galluogi swyddogion i ystyried beth mae'r polisi/deddfwriaeth/cyngor yn ceisio ei gyflawni, effeithiau posibl hynny (cadarnhaol a negyddol), effaith (neu ganlyniad anfwriadol) y polisi/deddfwriaeth/cyngor ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, ac a ellir cymryd unrhyw gamau i leihau, dileu neu liniaru'r effeithiau hynny os oes modd.

Mae templed AEHP yn cynnwys awgrymiadau i helpu swyddogion i gynnal eu dadansoddiad a dangos eu bod wedi ystyried hawliau plant ac wedi achub ar bob cyfle i nodi ffyrdd o wireddu'r hawliau perthnasol i gefnogi Gweinidogion wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Caiff templed AEHP ei gynnwys yn y llawlyfr i swyddogion Llywodraeth Cymru a gyhoeddir ar yr un pryd â'r Cynllun Hawliau Plant terfynol.

5 Grymuso plant

Canlyniad a ddymunir:

- Mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu eu harfer

Dylai hawliau plant rymuso plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu manteisio ar eu hawliau yn well, ac ymgysylltu â'r bobl a'r sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u dwyn i gyfrif.

Mae adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i gymryd y camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc). Bwriedir i'r ddyletswydd hon roi'r rhwymedigaeth sydd yn erthygl 42 o'r Confensiwn ar waith.

5.1 Datblygu strategaeth codi ymwybyddiaeth

Byddwn yn adeiladu ar y strategaeth ymwybyddiaeth bresennol a chynigiwn ddefnyddio cyflwyniad y cwricwlwm newydd yn 2022, a chynnwys hawliau dynol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, i ganolbwyntio ar y cam nesaf. Bydd y strategaeth yn targedu plant, pobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. Bydd y strategaeth yn amlinellu canlyniadau mesuradwy i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol.

5.2 Rhoi'r strategaeth ymwybyddiaeth ar waith

Cynigiwn sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol codi ymwybyddiaeth er mwyn dwyn ynghyd sefydliadau allanol sy'n helpu i gefnogi'r agenda hon. Diben y grŵp fydd:

- meithrin gweledigaeth ar y cyd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn;
- egluro priod rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad;
- cytuno ar amserlen gweithgareddau lefel uchel gydlynol

6 Cyfranogiad

Canlyniadau dymunol:

- Caiff penderfyniadau, polisiau a dulliau cyfathrebu Llywodraeth Cymru eu gwella drwy glywed barn plant a phobl ifanc
- Mae pobl ifanc yn mwynhau eu hawliau drwy chwarae rhan weithredol yn y broses o lunio polisiau

6.1 Model Cyfranogi

Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i fynegi eu barn yn rhydd am faterion sy'n effeithio arnynt, ac y dylai barn y plentyn gael ei hystyried yn briodol yn unol ag oedran a lefel aeddfedrwydd y plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyfranogi hirdymor i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu barn ac i'w barn gael ei hystyried. Disgwylir i swyddogion Llywodraeth Cymru fynd ati i nodi cyfleoedd i blant a phobl ifanc leisio eu barn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisiau/deddfwriaeth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cymru Ifanc i ddatblygu model cynrychioliadol sy'n galluogi plant a phobl ifanc i chwarae rhan ystyrlon.

6.2 Rhoi'r strategaeth gyfranogi ar waith

Byddwn yn sefydlu grŵp llywio i randdeiliaid er mwyn rhannu dulliau gweithredu ac arferion da ym maes cyfranogi o fewn sector cyhoeddus Cymru.

6.3 Rhoi gwybodaeth hygyrch i blant

Caiff swyddogion Llywodraeth Cymru eu hannog i lunio fersiynau sy'n briodol i blant o ganllawiau, ymgynghoriadau a dogfennau polisi, lle nodir y bydd cynigion polisi/deddfwriaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

7 Atebolrwydd

Canlyniadau dymunol:

- Bod yn gwbl atebol i blant am benderfyniadau a chanlyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Prosesau clir a thryloyw sy'n galluogi plant a phobl ifanc i herio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r ddyletswydd sylw dyledus.

7.1 Proses adborth plant a phobl ifanc

Byddwn yn creu proses gwyno y gall plant a phobl ifanc ei defnyddio i herio unrhyw sefyllfa lle na fyddant o'r farn bod Gweinidog(ion) wedi cyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae yna hefyd sefydliadau a all gynorthwyo plant a phobl ifanc drwy roi adborth/cymorth (gweler Atodiad B)

7.2 Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

I hyrwyddo tryloywder, cyhoeddir Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.

7.3 Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Gall y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, herio Llywodraeth Cymru lle maent o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Gall hyn gynnwys sefyllfa lle na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig. Os na chaiff Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyflawni, bydd angen i swyddogion gofnodi'r rheswm pam.

7.4 Cynllun Hawliau Plant

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant (a/neu unrhyw ddiwygiadau iddo) ac felly mae ganddi rôl i'w chwarae wrth graffu ar y trefniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud i gydymffurfio â'u dyletswydd sylw dyledus.

Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ail-wneud y cynllun ar unrhyw adeg yn unol ag Adran 2 (5) o'r Mesur.

7.5 Adroddiad cydymffurfio

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob 5 mlynedd ar sut y maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyhoeddi ei hadroddiad cydymffurfio bob dwy flynedd a hanner. Bydd cyhoeddi adroddiad canol tymor yn rhoi cyfle i Lywodraeth

Cymru a'r Senedd fyfyrir ar effeithiolrwydd y trefniadau fel y'u nodir yn y Cynllun Hawliau Plant hwn.

Bydd adroddiad cydymffurfio nesaf Llywodraeth Cymru yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2020.

7.6 Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Prif Weinidog. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn un o'r ffyrdd y mae'r Comisiynydd Plant yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cynllun Hawliau Plant – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1:

A ydych o'r farn bod y trefniadau a nodir yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn yn ddigonol er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau?

Ydw

Dywedwch pam wrthym:

Nac ydw

Sut y gellid atgyfnerthu'r trefniadau hyn, yn eich barn chi?

Cwestiwn 2:

A ydych o'r farn y bydd strwythuro'r Cynllun Hawliau Plant, ar sail Y Ffordd Gywir, yn helpu Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant yn unol â'r Confensiwn, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau?

Ydw

Dywedwch pam wrthym:

Nac ydw

Dywedwch pam wrthym:

Cwestiwn 3:

A ydych yn cytuno â'r canlyniadau a amlinellir yn y ddogfen o dan bob adran?

Ydw

Dywedwch pam wrthym:

Nac ydw

Sut y gellid atgyfnerthu'r canlyniadau hyn, yn eich barn chi?

Cwestiwn 4:

Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg.

Cwestiwn 5:

Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Atodiad A

Rhestr (nad yw'n hollgynhwysfawr) o Gytuniadau Rhyngwladol perthnasol a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil (1965)
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (1966) a'i brotocolau dewisol a'r ail brotocol dewisol;
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (1966)
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (1979) a'i brotocol dewisol (1999)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (1984)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (2006)

Atodiad B: Sefydliadau a all helpu pobl ifanc i roi adborth

Mae gan **Gomisiynydd Plant Cymru** y pŵer i roi cyngor a chymorth i bobl a phlant ifanc sydd am herio Gweinidogion, a'u cynrychioli. Mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i adolygu sut mae gwaith Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r canlynol yn ddolen i wefan y Comisiynydd:

<https://www.complantcymru.org.uk/cysyllta/>

MEIC – Dyma'r llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae eiriolwyr Meic yn helpu plant a phobl ifanc i gael eu clywed gan eraill. Mae Meic ar gael i roi cyngor a gwybodaeth i blant a phobl ifanc sydd am herio Gweinidogion Cymru. Gallant hyd yn oed gysylltu ag eraill ar eu rhan. Dyma'r ddolen i wefan Meic:

www.meiccymru.org